



ARGLWYDD BRIF USTUS
CYMRU A LLOEGR

Y GWIR ANRHYDEDDUS YR ARLWYDD JUDGE

Y Gwir Anrhydeddus Kenneth Clarke CF AS
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

21 Hydref 2010

Annwyl

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol rhaid ystyried pob un cyfle i arbed arian. Mae hefyd yn amlwg bod nifer o lysoedd mewn gwahanol rannau o Gymru a Lloegr nad ydynt yn darparu gwasanaeth cyhoeddus digon gwerthfawr rhagor. Mae rhai llysoedd yn cael eu tanddefnyddio, mae eraill yn agos iawn at ei gilydd, ac mae cyflwr eraill eto'n wael, ac, a defnyddio ymadrodd cyfarwydd, yn anaddas at eu diben.

Ni fwriedir i'm hymateb fod yn ymateb "barnwrol" hollgynhwysol. Y cyfan mae'n ei wneud yw adlewyrchu'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r broses ymgynghori a anfonwyd ataf. Fel y gwelwch, mae'n amlwg o'r dystiolaeth fod nifer o achosion lle mae'r ddadl o blaid eu cau'n amlwg ac yn glir, achosion eraill lle nad yw hynny'n wir, ac eraill eto lle y codwyd amheuan ynglŷn â'r ddadl o blaid eu cau a'r rheini i bob golwg yn rhesymol ac yn deg wrth iddynt amau'r dystiolaeth. Mae hyn yn ymwneud yn benodol ag amserau teithio. Mewn achosion eraill eto, amheuir nid yn gymaint egwyddor eu cau, ond holir a fyddai dewis mwy boddhaol arall ar gael yn lle hynny.

Yn y pen draw, wrth gwrs, sylweddolaf eich bod yn gyfrifol am bwysu a mesur y budd i'r cyhoedd o gadw unrhyw lys ar agor adeg argyfwng ariannol. Y cyfan yr wyf am ei ychwanegu, a gwn eich bod yn deall hynny'n iawn, yw nad oes modd mesur gwerth darpariaeth unrhyw lys unigol i'w gymuned leol yn ôl y ffigurau ar fantolen, ac yn sicr, nid dyna'r unig fesur.

Y GWIR ANRHYDEDDUS YR ARLWYDD JUDGE